

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan arolygiad AGC o wasanaethau plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- Ymgynghoriad â staff a defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn profi problemau iechyd meddwl fel rhan o'n gwaith i gefnogi adolygiad AGIC o wasanaethau iechyd meddwl

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cymunedol. Cyfweiliadau â staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau Ysbyty Cwm Coch.

- Hunanwerthusiad o'r Gwasanaethau Oedolion a gyflwynwyd i AGC yn gynharach eleni.
- Ymweliad â Chanolfan VITCC Tredegar a Chanolfan Adnoddau Bryn-mawr ar 2 Ebrill 2019. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth ag aelodau o'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Tîm Adnoddau Cymunedol, adolygiad o astudiaethau achos a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid a dinasyddion sy'n defnyddio'r gwasanaeth cysylltu.
- Gweithgaredd â ffocws ym mis Mawrth 2019 i adolygu cynnydd y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl; cynllun peilot gyda Heddlu Gwent i roi gweithwyr proffesiynol yn ystafell reoli'r heddlu i gynorthwyo gyda phobl sydd ag anghenion iechyd meddwl.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 10 Ebrill 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi buddsoddi llawer o amser i ymdrin â gwendidau yn y farchnad gofal cartref. Gwnaed gwaith cynllunio ar y cyd â Chaerffili, Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Mae Tîm Comisiynu Blaenau Gwent yn gweithio gyda Chaerffili er mwyn caffael model cynaliadwy o ofal cartref ar y cyd ar gyfer y ddau awdurdod lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn credu y bydd y model hwn yn cynnig mwy o ddewis ac opsiynau i ddinasyddion sy'n byw ym Mlaenau Gwent.

Pan siaradom â phobl yn uned Cwm Coch, gwnaethant ddisgrifio gweithwyr cymdeithasol cefnogol iawn sy'n cysylltu â nhw'n rheolaidd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am wasanaethau dydd Hafal hefyd ynghylch yr ystod o weithgareddau a chymorth sydd ar gael, gan gynnwys cyfleoedd i gymdeithasu, cerddoriaeth a gweithgareddau crefft.

Gwelsom o'n gweithgaredd â ffocws fod y tîm IAA a'i bartneriaid yn deall sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' a'u bod yn eu croesawu, gan gydnabod sut maent yn helpu pobl i weithio gydag eraill a chyflawni canlyniadau. Dywedodd y gweithiwr MIND wrthym fod llawer iawn o'i waith o ganlyniad i atgyfeiriadau Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN) gan yr Heddlu. Nodwyd bod y rôl hon yn rhyngwyneb gwerthfawr â gwasanaethau allweddol eraill, megis Cymorth i Fenywod a Chwm Coch. Yn ogystal, roedd y swydd yn gallu cynnig cymorth emosiynol uniongyrchol dros y ffôn, cyfeirio at wasanaethau perthnasol a rhaeadru gwybodaeth o fewn y tîm. Nododd y tîm IAA fod y diffyg tai sy'n cefnogi iechyd meddwl a chymorth ychwanegol fel y bo'r angen yn rhwystr posibl y mae angen i'r awdurdod lleol ymdrin ag ef.

- Pobl – llais a rheolaeth

Mae Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn helpu siaradwyr

Cymraeg i gael gwasanaethau yn Gymraeg, pan fo angen, heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Gwnaethom asesu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd yr awdurdod lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen fel rhan o'r arolygiad o'r gwasanaethau plant a'r gweithgareddau gwerthuso perfformiad blynyddol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adrodd mai poblogaeth fach iawn o siaradwyr Cymraeg sydd yn y fwrdeistref. Mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo gwasanaethau yn Gymraeg, a hynny'n fewnol ac yn allanol. Mae un ysgol Gymraeg yn y fwrdeistref ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch a ddylid cael un arall.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adrodd ei fod yn gwirio gyda darparwyr i weld a oeddent wedi cael unrhyw geisiadau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg; ni chafwyd unrhyw geisiadau ers i *Mwy na Geiriau* gael ei gyflwyno. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adrodd ei fod yn hyrwyddo diwylliant Cymreig ac yn annog cartrefi gofal i'w ddathlu ac i gynnal digwyddiadau sy'n ymwneud â diwylliant Cymreig.

Bydd strategaeth eiriolaeth bum mlynedd ar waith ar draws Gwent erbyn mis Ebrill. Mae'n gadarnhaol nodi y gweithiodd comisiynwyr, darparwyr a dinasyddion yn gydgyhyrchiol (gyda chymorth gan Cydgyhyrchu Cymru) i ddatblygu strategaeth gomisiynu ranbarthol. Mae trefniant rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yng Ngwent hefyd ar gyfer eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol.

Yn dilyn yr arolygiad o'r gwasanaethau plant ym mis Chwefror 2018, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi nodi bod newidiadau i arfer yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn dechrau cael eu gwreiddio. Er enghraifft, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi sefydlogi ac mae ar 223 ar hyn o bryd. Cafwyd lleihad hefyd yn nifer yr achosion gofal cyfreithiol. Fodd bynnag, mae nifer y lleoliadau gyda rhieni a lleoliadau gyda pherthnasau wedi parhau i gynyddu; mae'n bwysig bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn parhau i ystyried sut mae hyn yn effeithio ar recriwtio gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adolygu dichonoldeb troi rhai lleoliadau gyda pherthnasau yn Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, gan gydnabod na fydd hyn o reidrwydd yn lleihau gwariant gan fod gan lawer o'r plant hyn anghenion sylweddol.

Mae digonolrwydd lleoliadau wedi parhau i fod yn her i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; mae problem o hyd gyda recriwtio gofalwyr maeth prif ffrwd a rhai proffesiynol, er gwaethaf ymgyrch recriwtio. Mae'r cyngor wedi recriwtio un gofalwr maeth proffesiynol ac mae teulu arall yn cael ei asesu. Hefyd, bydd prosiect 'MIST' Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Mynwy yn gwbl weithredol o fis Gorffennaf ymlaen a bydd yn darparu cymorth dwys i ofalwyr plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Y cynnig yw i bobl ifanc mewn llety preswyl gael eu blaenoriaethu a'u bod yn dychwelyd i fyw yn agosach at eu cartrefi lle y bo'n briodol. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn disgwyl gweld cynnydd clir am flwyddyn arall; bwriedir adrodd ar y cynnydd hwn i'r gwasanaeth craffu ym mis Chwefror 2020.

Bu pryderon ar draws awdurdodau lleol Cymru bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon oherwydd rhestrau aros mesurau diogelu amddifadu o rhyddid. Mae ein gwaith o fonitro'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid wedi nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad drwy ddull rhanbarthol a bwrdd prosiect sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae Tîm Uwch-reolwyr y Gwasanaethau Oedolion wedi cael ei ailwampio ac mae swydd newydd ar gyfer Rheolwr Gwasanaethau Integredig (Atal) wedi cael ei chreu (tymor penodol). Mae'r swydd hon wedi cael ei hariannu gan gydweithwyr yn yr adran lechyd gan ddefnyddio cyllid ar gyfer prosiectau braenaru a bydd yn swydd allweddol wrth ddatblygu'r Strategaeth Atal.

Roedd y bobl y siaradom â nhw yn ystod ein gweithgaredd â ffocws ym Mlaenau Gwent wedi dod i gysylltiad â chysylltwyr cymunedol drwy amrywiaeth o lwybrau, megis drwy hosbis yn dilyn profedigaeth, Nyrs Seiciatrig Gymunedol a Meddyg Teulu. Dangosodd hyn fod dealltwriaeth dda o rôl y cysylltwyr cymunedol ac y gall pobl mewn amrywiaeth o amgylchiadau elwa ar eu gwasanaeth. Roedd yr holl bobl y siaradom â nhw wedi bod yn gysylltiedig â gweithgareddau a oedd wedi helpu eu hiechyd meddwl/emosiynol. Ar gyfer y grŵp bach o bobl y gwnaethom ymgysylltu â nhw, roedd y dull ataliol wedi ymdrin â'u hanghenion a'u hatal rhag gwaethygu gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w llesiant.

Yn ystod ein hymweliad â Chanolfan Adnoddau Bryn-mawr, gwelsom dystiolaeth o ddull ataliol yn cael ei ddatblygu, amgylchedd modern ac egniol a gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn dechrau gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn bartneriaid gweithredol yn natblygiad Llwybr Llywio Gofal Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n ceisio cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yn y feddygfa. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o sefydlu rhwydweithiau llesiant yn ffurfiol ar draws Gwent, gan gynnwys Blaenau Gwent, ac mae cyllid trawsnewid ar gael i Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn datblygu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gyfrifol am swydd Rheolwr Llesiant er mwyn sicrhau dull partneriaeth wrth ddatblygu Hybiau lechyd a Llesiant newydd yng Nghanolfannau Llesiant Bryn-mawr a Thredegar. Mae hyn yn gadarnhaol o ran sicrhau bod sefydliadau yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'i gilydd. Cawsom wybod y bydd y fanyleb yn fwy datblygedig yn Nhredegar nag ym Mryn-mawr, gyda chaffi a mwy o ffocws ar y gymuned. Mae'n bosibl y bydd y bobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau anabledau dysgu yn cael y cyfle i weithio mewn caffi. Bydd Dechrau'n Deg hefyd yn bresennol yn Nhredegar gyda chysylltiadau â Chymunedau Tosturiol; mae'r ardaloedd peilot yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Gogledd Caerffili.

Drwy ein gweithgaredd â ffocws gwelsom hefyd ystod o asiantaethau partner yn gweithio yn y gwasanaeth IAA. Roedd y gwasanaeth IAA yn cynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth am bethau fel tai a gwasanaethau'n gyffredinol. Clywsom am y prosiect gofalwyr sy'n gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr drwy gefnogi gofalwyr, gyda chymorth yn cael ei ddarparu drwy feddygfeydd yn aml. Adroddodd y grŵp o weithwyr proffesiynol y gwnaethom gyfweled â nhw fod cynnydd mewn asesiadau gofalwyr. Clywsom am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda meddygon teulu i wella'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a bod y gwasanaeth IAA wedi bod yn hyrwyddo technoleg gynorthwyol ac yn ei gosod yn brydlon.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth.

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Cadarnhaodd ein gweithgaredd â ffocws fod y tîm IAA yn gweithio fel pwynt cyswllt cyntaf yn yr awdurdod lleol a bod y gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at agenda ataliol. Dywedodd grŵp ffocws o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, staff ieuchyd a staff sefydliadau partner wrthym eu bod wedi gweld ymdrech i ddatblygu gwasanaethau ataliol gyda gostyngiad yn nifer y gwasanaethau preswyl mewnol a mwy o gymorth yn y gymuned. Fel llawer o awdurdodau lleol eraill, dywedodd y grŵp fod dinasyddion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi gweld hyn yn anodd gan fod diwylliant o ddibyynu ar wasanaethau. Tynnwyd sylw at hyn hefyd yn hunanwerthusiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Cawsom wybod bod partneriaeth dda wedi'i datblygu â'r trydydd sector a bod gwaith cydweithredol yn cael ei wneud gyda'r sector lechyd yn y gwasanaeth Gartref yn Gyntaf. Mae'r cynlluniau i ryddhau cleifion o ysbytai yn dod i'r arfer â'r dull newydd ac mae pobl wedi'u sicrhau bod cymorth ar gael ac y gallant wneud eu dewisiadau eu hunain.

Mae sefydlu'r Gwasanaeth Gartref yn Gyntaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn enghraifft o gydweithio rhwng pum awdurdod lleol Gwent a Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chyrff cyhoeddus eraill. Defnyddiwyd cyllid trawsnewid ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn cefnogi pobl sy'n mynd adref yn annibynnol. Yn yr amser byr ers i'r tîm gael ei sefydlu, gwelwyd datblygiadau sylweddol o ran atal pobl rhag cael eu derbyn i wardiau'n ddiangen a rhyddhau cleifion yn amserol, ac mae'r datblygiadau hyn yn parhau. Mae cydweithwyr ym maes ieuchyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth Gartref yn Gyntaf ac mae'n dangos gweithio blaengar, cydweithredol ac integredig gan sicrhau canlyniadau da i bobl drwy gynnal sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' ac adeiladu ar gryfderau pobl. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn parhau i ddatblygu eu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Gwnaethom ymweld â'r Prosiect Brysbennu lechyd Meddwl. Er bod hwn yn brosiect eithaf newydd, mae'r data sydd ar gael wedi dangos bod nifer yr achosion pan anfonwyd yr heddlu i ddigwyddiadau wedi lleihau a bod faint o amser y mae'r heddlu'n ei dreulio'n ymdrin â digwyddiadau wedi lleihau hefyd. Yn ogystal, mae arwyddion bod canlyniadau pobl yn cael eu gwella drwy gyfeirio at wasanaethau mwy priodol a thrafod mynediad atynt yn ogystal â thrwy leihad yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw o dan Adran 136.

Yn ystod ein gwaith yn ymgysylltu â phobl yng Nghwm Coch, cawsom adborth am effeithiolrwydd gweithio amlasiantaeth. Disgrifiwyd y Tîm Trin yn y Cartref (gwasanaeth a ariennir gan yr adran ieuchyd) gan rai pobl fel un anymatebol, yn enwedig mewn argyfyngau. Rydym yn deall bod y Tîm Trin yn y Cartref yn cael ei adolygu gan Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar hyn o bryd a bod model 'y tu allan i oriau' yn cael ei ystyried. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn credu bod rôl meddygon teulu yn bwysig wrth ddarparu llwybr at gymorth amserol a phriodol, lle mae'r meddyg teulu'n ymatebol. Adroddodd pobl hefyd fod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi amser ac yn blaenoriaethu hyn, roeddent yn cael eu hystyried yn gyswllt da i feddygon teulu a gwasanaethau eraill.

Yn dilyn yr arolygiad o'r gwasanaethau plant, nodwyd bod y panel anghenion cymhleth yn faes lle'r oedd angen cydweithredu gwell rhwng partneriaid, yn arbennig drwy gyfranogiad cydweithwyr yn yr adran iechyd. Mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi adrodd bod panel rhanbarthol bellach wedi cyfarfod dair gwaith. Mae'r pum Pennaeth Gwasanaeth rhanbarthol yn eistedd ar y panel sy'n ystyried pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Sefydlwyd cynrychiolaeth briodol o'r gwasanaeth iechyd yn ddiweddar (ar gyfer y cyfarfod olaf) a gweithiodd hyn yn dda gyda chyfraniad iechyd at gynllunio yn gwella ar unwaith.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Caiff ein gweithgaredd â ffocws â'r awdurdod lleol ei gadarnhau gydag arolygydd newydd AGC. Ar gyfer y gwasanaethau plant, rydym yn ystyried canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar gydag archwiliad bach o ffeiliau achos a rhai galwadau dilynol i bobl, gan edrych yn benodol ar waith gyda'r heddlu a'r IAA. Ar gyfer y gwasanaethau oedolion, rydym yn ystyried gwerthuso effaith y cysylltwyr cymunedol a bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn